**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mike Hedges, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
CF99 1NA

23 Chwefror 2026

Annwyl Mike

**Pwyntiau adrodd mewn perthynas ag Is-ddeddfwriaeth Gymraeg**

Diolchaf i'r Pwyllgor am ei lythyr dyddiedig 26 Ionawr. Fel yr aelod Cabinet sy'n gyfrifol am y Rhaglen Ddeddfwriaethol, rwy'n ymateb ar ran y Llywodraeth. Mae ein trefniadau presennol wedi eu hadolygu er mwyn darparu'r ymateb hwn.

Mae i destunau Cymraeg a Saesneg is-ddeddfwriaeth a wneir yn ddwyieithog statws cyfartal at bob diben (adran 156 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac adran 5 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019). Mae Llywodraeth Cymru, felly, yn cydnabod pwysigrwydd osgoi anghysondebau rhwng testunau Cymraeg a Saesneg yr is-ddeddfwriaeth y mae'n ei gwneud.

Nod parhaus y Llywodraeth yw llunio cyfraith dda a lleihau nifer y pwyntiau adrodd sy'n ei gwneud yn ofynnol diwygio is-ddeddfwriaeth, o fewn diwylliant o welliant parhaus. Croesawn adborth y Pwyllgor ac mae pwyntiau adrodd yn cael eu dadansoddi'n ofalus bob amser.

Rwy'n falch o ddweud y gwelwyd lleihad sylweddol yn nifer y pwyntiau adrodd yr hysbyswyd amdanynt yn y cyfnod o dri mis rhwng mis Medi 2025 a mis Rhagfyr 2025, er gwaethaf cynnydd sylweddol yn nifer yr offerynnau statudol Cymreig a osodwyd. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu â'r Pwyllgor yng nghyd-destun ein hymrwymiad i welliant parhaus a bydd yn parhau i fonitro hyn wrth inni symud tuag at y Seithfed Senedd.

Yn ogystal â chynyddu capasiti mewn timau perthnasol a datrys materion trosiannol wrth inni gyflwyno meddalwedd drafftio deddfwriaeth newydd, mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a benodwyd yn ddiweddar yn bwriadu cydweithio â'r Prif Gwnsler Deddfwriaethol a thimau perthnasol i geisio gwelliant parhaus o ran drafftio a chyfieithu is-ddeddfwriaeth, gyda'r nod o leihau pwyntiau adrodd gan y Pwyllgor ymhellach.

Fel y dywedais yn fy llythyr at y Pwyllgor ar 22 Gorffennaf 2025, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i barhau i gydweithio â'r Senedd a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'i olynydd yn dilyn yr etholiad. I'r perwyl hwn, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion

drefnu cyfarfod â Chlerc y Pwyllgor i ystyried sut y gallant weithio orau gyda'r Pwyllgor i wella'r broses graffu mewn perthynas ag offerynnau statudol Cymreig ac is-ddeddfwriaeth nad yw'n offeryn statudol Cymreig.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Gwir Anrhydeddus Eluned Morgan AS, Prif Weinidog Cymru, Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, a'r Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery